

Neges

gan

R Alun:



Fe wyddwn i am fodolaeth y mudiad 'Cristnogion yn erbyn Poenydio'. Yn ddiweddar 'ma y clywais i gyntaf am fudiad 'Cristnogion yn erbyn Tlodi'. Yn y diwylliant 'prynu heddiw, talu fory' mae tlodi yn fwy o broblem nag a wyddom ni. Mae gwleidyddion, ar adeg etholiad, yn hawlio mae gan eu plaid nhw y mae'r ateb gorau i'n economi egwan. Pwy feddyliai y gallai banciau guddio biliynau o bunnau o golledion oddi wrth eu Bwrdd Rheoli? Nid y banciau sy'n dioddef ond yn hytrach pobol fel chi a minnau sy'n ymddiried yn y banciau i ddiogelu'n henillion. Pan ddaw hi'n fater o ad-dalu, neu'n fwyfwy tebygol o fethu ag ad-dalu dyledion, y rhai sy'n bygwth yn groch sy'n debyg o gael ymateb. A hynny ar draul mynd heb yr hanfodion.

Syndod oedd darllen yng nghylchgrawn Cristnogion yn erbyn Tlodi am un wraig aeth heb fwyd am wythnosau gan fwyta papur sidan [*paper tissues* yn ôl y Briws] i stopio llwgu. Ac mae'r broblem ar ei gwaethaf i'r rhai ar gyrion cymdeithas.

Beth sydd gan y Beibl, beth sydd gan yr eglwys Gristnogol i'w ddweud am dlodi? 'Dadlau achos y rhai diobaith' meddai llyfr y Diarhebion a 'phregethu'r newyddion da i'r tlodion'.

Testun diolch yw fod gan yr eglwys yng Nghymru, fel eraill o Gristnogion y byd, gydwbybod am dlodi Haiti a gwledydd eraill sy'n wynebu tlodi enbyd. Ond peidiwn ac anghofio bod y ffaith o dlodi yn llawer nes adref. Ac nid mater ariannol mo'r tlodi hwnnw bob tro. Y mae 'na dlodi ysbrydol yn llethu'r wlad yn ogystal (e.e. Gweler erthygl ac apêl Gwenno Huws ar dudalen 5). Tybed a oes gan wleidyddion rhywbeth i'w ddweud am hwnnw? Os Mai 6 yw dydd yr Etholiad Cyffredinol ein dyletswydd ni yw rhoi'r Groes yn y lle iawn.

R Alun Evans

Cyfeiriadau:

Gweinidog:

Y Parchedig Ddr R. Alun Evans,
Y Wenallt, 8 Heol Elmgrove, Yr Eglwys Newydd,
Caerdydd CF14 2BW

Ffôn: 02920 520 854 **e-bost:** ralun.evans@virgin.net

Ysgrifennydd Bethlehem:

Rhys Dafis

Ffôn: 029 20 89 13 60 **e-bost:** rhysdafis@aim.com

Croeso i

- **Mabon** – mab i Lowri a Gwion ap Rhisiart – wŷr i Kay a David Clement, Ffynnon Taf.
- **Kitty Mair Elisabeth** – merch i Rebecca a Tomos - wyres i Arwel a Margaret Ellis Owen, Creigiau, gyrhaeddodd ychydig ddyddiau ar ôl ei chefnider, **Wil Aneurin**, mab Catrin a Steve tuag adeg ymddangosiad ein Bwletin diwethaf.

Bedydd Dwbl ar Ebrill 11

- **Steffan**, mab Rhian ac Alan Jones, Gwaelod-y-Garth (a brawd bach i Osian) a **Gwen**, merch Sara a Rhodri Gibson Pontcanna (a chwaer i Mari). Croeso mawr iddyn nhw i'n plith hefyd.



Dwy briodas

(chwith) Priodas Rwth Ellis Owen (Creigiau) a Stuart Anthony Baines ym Methlehem, Gwaelod-y-Garth, ar ddydd Sadwrn, Mawrth 20.

(dde) Priodas Holly Naomi Stedman ac Alun Justin Ashton Evans (Pentyrch) yn Eglwys Sant Barnabas, Drefach-Felindre ar ddydd Sadwrn, Mawrth 27.

Dymuniadau da i'r ddau gwpwl.



Myfyrdod ar y Croeshoeliad gan J Stainer a gawsom fore Sul, Chwef. 21^{fed}, yng nghwmni Côr Caerdydd dan arweiniad Gwawr Owen. Yn rhan o'r perfformiad hefyd roedd Cath Edwards, a fu'n cyfrannu darlenniadau o'r ysgrythur ynghyd â chyfieithiad Gwyn Thomas o'r rhannau unawdol. Ac yn goron ar y cyfan oedd cyfeiliant yr organydd, Rob Nicholls. I gloi, trodd y côr at drosiad T.J. o'r Weddi Geltaidd i gerddoriaeth John Rutter. Deallwn i'r côr fwynhau yn ein cwmni, a chawsom ninnau fendith o'u perfformiad eneiniedig.

Trip Blynyddol y Cwrdd Merched

**TREFECA A'R
GELLI GANDRYLL**

Mai 11

(gadael cofeb Radur am 9.00 y bore)

Enwau i:

Mary Edwards, Gwaelod-y-Garth

SWPER

HAF

a chyflwyno sic
i elusen

**Cymdeithas Clefyd
Motor Neuron**

Pnawn Sul
Gorffennaf 11 am 5.00

DIOLCH:

- Ym mis Mai bydd June Huws, Gwaelod-y-Garth, yn ymddeol fel diacon a chofrestrydd a dymunwn ddiolch iddi am ei holl waith dros yr eglwys. Fe fydd June fodd bynnag yn parhau i wasanaethu'r eglwys fel o'r blaen mewn ffyrdd eraill.

DERBYN AELODAU

- Byddwn yn derbyn nifer o aelodau ifanc yn oedfa bore Sul Cymun Mawr Mai, Mai 9^{fed}.

***Rhowch wybod i'ch diacon ardal
am ddigwyddiad ddylai gael
sylw, os gwelwch yn dda.***

DYWEDDIAD:

- Longyfarchiadau i Ywain ap Rhys, Creigiau, ar ei ddyweddiad â Fiona Bargery (yn ystod taith i'r Aifft).

Cydymdeimlwn

â'r canlynol:

- **Heulwen Jones**, Yr Eglwys Newydd – a gollodd ei mam yn ystod cyfnod y Nadolig.
- **Ann Jones**, Pentyrch - hithau wedi colli ei mam dros gyfnod y Nadolig.
- **Ffiona Morgan**, Gwaelod-y-Garth, wedi colli cyfnither.

Newyddion

- Da gweld bod braich **Mary Edwards**, Gwaelod-y-Garth, yn gwella ar ôl iddi ei thorri yng nghyfnod yr eira. Yr un modd, Ann Hughes, Pentre-poeth – hithau wedi anafu ei braich. Hefyd fod Ann Beech, Ffynnon Taf, yn ôl yn ein plith ar ôl ei thriniaeth ddiweddar yn yr ysbyty.

- Llongyfarchiadau i **Catrin Llwyd**, Gwaelod-y-Garth, ar ei phenodi'n diwtor rhan amser yng Nghanolfan Cymraeg i Oedolion Prifysgol Caerdydd. Tesun llawenydd pellach i Catrin oedd mai un o'i chyn-fyfyrwyr o'r Coleg Cerdd a Drama (2005-08), Aneurin Barnard, enillodd wobr Olivier am Actor gorau mewn Sioe Gerdd.

Suliau 2010 [Oni nodir yn wahanol - gwasanaethau am 10.30

EBRILL

- 2 - Gwasanaeth y Groglith
- 4 (Sul y Pasg) Oedfa yng ngofal yr aelodau
- 11 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
- 18 Y Parchg. Hywel W. Richards
- 25 Y Parchg. R. Alun Evans
(â chyflwyniad "Yr Ystafell Fyw"
gan Wynford Ellis Owen)

MAI

- 2 Y Parchg. Haydn Thomas
(â chyflwyniad ar glefyd Motor Neuron)
- 9 Y Parchg. R. Alun Evans
(Cymun a derbyn aelodau newydd)
- 16 Sul Cymorth Cristnogol
- 23 Mr Eifion Hopwood
- 30 Y Parchg. Lona Roberts

MEHEFIN

- 6 Gwasanaeth Ardal,
Gogledd Ddwyrain Caerdydd
- 13 Sul Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
- 20 Dr Eirian Dafydd
- 27 Y Parchg. R. Alun Evans

GORFFENNAF

- 4 Y Parchg. Dafydd Andrew Jones
- 11 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
Swper Haf
- 18 Sul Cyfundeb
- 25 Y Parchg. R. Alun Evans

AWST

- 1 Efail Isaf (Cymun) [10.45]
- 8 Bethlehem
- 15 Efail Isaf [10.45]
- 22 Bethlehem
- 29 Efail Isaf [10.45]

MEDI

- 5 Miss Eirwen Richards
- 12 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
- 19 Y Parchg. R. Allan Pickard
- 26 Y Parchg. R. Alun Evans

HYDREF

- 3 Y Parch Jeff Williams
- 10 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
- 17 Gwasanaeth Diolchgarwch y Plant
- 24 Y Parchg. R. Alun Evans
- 31 Y Parchg. Dafydd Owen

TACHWEDD

- 7 Gwasanaeth Ardal, Gwaelod-y-Garth,
Ffynnon Taf, Tongwynlais
- 14 Y Parchg. R. Alun Evans(Cymun)
- 21 Y Parchg. John Gwilym Jones
- 28 Y Parchg. R. Alun Evans

RHAGFYR

- 5 Ymweld â Chartref Henoed yn y bore.
(hwyr) *Naw Llith a Charol*
- 12 Y Parchg. R. Alun Evans Cymun 5pm
- 19 Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul
- 25 [10.00am]: Gwasanaeth Bore Nadolig
- 26 Y Parchg. R. Alun Evans

Trosglwyddo'r Gadeiryddiaeth



Y gweinidog yn trosglwyddo 'Beibl y Cyfundeb' i ofal y Parch. Kevin Davies wrth i'r naill ildio Cadeiryddiaeth y Cwrdd Chwarter i'r llall. Cyflwynwyd y Beibl yn gyntaf ym 1928 ac mae wedi ei lofnodi gan bob Cadeirydd Cyfundeb Dwyrain Morgannwg yn ei dro ers hynny.

CYNGERDD

Côr y Waunddyfal
ac
Ysgol
Gwaelod-y-Garth

Nos Wener Mai 7
am 7.30
yr elw at yr
elusen am eleni:
Cymdeithas Clefyd Motor
Neuron

Tocynnau ar gael oddi wrth
eich diacon ardal -
2 docyn i bob aelwyd
i'w gwerthu/prynu
o Ebrill 11eg ymlaen

Enwebu a Dewis

ELUSEN 2010-11

Enwebu:

Mehefin 27

Dewis:

Gorffennaf 11

Fedrwch chi sbario 2 awr ar bnawn Sul.....unwaith y flwyddyn?

Mae eglwysi Caerdydd a'r fro – sef eglwysi Dewi Sant, Ebenezer, Minny Street, Yr Eglwys Efengylaidd, Salem, Crwys, Efail Isaf a ninnau yma ym Methlehem yn darparu cwpanaid o de a brechdanau bob prynhawn Sul i'r rheiny sy'n ddigartref yn y brifddinas. Fe ddechreuodd y gwasanaeth yma rhyw ugain mlynedd yn ôl erbyn hyn ac mae'r drefn yn gweithio'n dda iawn. Mae'n golygu fod angen sicrhau tîm o bedwar o bobl i fynd draw i'r Aes erbyn 2.30 p.m. er mwyn paratoi'r lluniaeth ac yna am 3 o'r gloch mae'r gwesteion yn cyrraedd. Am yr awr nesaf, mae'r tîm yn brysur yn gweini te ac yn cynnig brechdan. Does dim angen i chi fod yn gogydd o fri dim ond yn berson trefnus a phrydlon!

Mi fydd y drws yn cau am 4 o'r gloch ac ar ôl rhyw ugain munud o dwtio a llau, dyna ni, y cwbl drosodd. Felly os fedrwch chi gynnig eich help o bryd i'w gilydd mi fyddai hynny'n wych. Mae gennym "fanc" o enwau y byddwn yn troi atynt pan ddaw ein tro ni ym Methlehem ond gorau po fwyaf o enwau sydd yn y "banc" wrth gwrs. Mi fyddai'n braf i gael wynebau newydd. Os fyddech chi'n newydd i'r gwaith, na phoener, fe sicrhawn eich bod gydag unigolion profiadol. Ac yn wir, mae'n dipyn o brofiad. Fe ddewch oddi yno yn cyfrif eich bendithion. Dydy bywyd ddim yn hawdd i neb ond ambell waith mae amodau ac

amgylchiadau anodd yn gallu chwalu bywydau. Felly cofiwn y geiriau cyfarwydd:-

Rho imi nerth i wneud fy rhan, i gario baich fy mrawd, i weini'n dirion ar y gwan a chynorthwyo'r tlawd.

Ehanga 'mryd a gwared fi rhag culni o bob rhyw rho imi weld pob mab i ti yn frawd i mi, o Dduw.

Dyma'r dyddiadau y byddwn ni yn gyfrifol amdanynt eleni:

Ebrill 25^{ain}
Gorffennaf 11^{eg}
Medi 26^{ain}
Rhagfyr 12^{fed}

Mi fyddai Gwenno Huws yn falch o glywed gennych. Ffoniwch 029 20224087 neu e-bost: hughes_alun@sky.com

**GWĒFAN
BETHLEHEM**

**Mae llawer
mwy o wybodaeth
ar gael
ar ein gwefan:**

www.gwe-bethlehem.org

Os na chawsoch chi gopi electronig o'r bwletin diwethaf drwy e-bost, anfonwch eich cyfeiriad e-bost at Rhys Dafis [rhysdafis@aim.com].

Mi wnawn yn siŵr y cewch chi gopi o bob rhifyn gydag un clic!

**Derbyn
Aelodau
Newydd
a
Chymun
Mawr Mai**

**Fore Sul Mai 9
am 10.30**

dan arweiniad y gweinidog
Y Parchg. Ddr. R. Alun Evans

**Gwenno
a
Gwynfor**

Rydyn
ninnau am
longyfarch
Gwenno
Huws, gan
mai ei
dymuniad
hi wrth
ymddeol



o'i swydd fel dirprwy
brifathrawes oedd gweld Y
Barri'n cydnabod cysylltiad y
diweddar Ddr. Gwynfor Evans
â'r dref. Bellach, cafodd
penddelw efydd o'r gwleidydd ei
ddadorchuddio yn Llyfrgell ei
dref enedigol, gan yr Arglwydd
Dafydd Elis-Thomas.

Gwaith John Meirion Morris, y
cerflunydd o Lanuwchllyn, ydy'r
penddelw (uchod) ynghyd â
chwpled arno o waith Euryon
Ogwen Williams:

*Asbri'r gwladgarwr a'i ysbryd
yw'n rhodd ni o'r Barri i'r byd.*

Ein dau grwydryn dros achosion dyngarol



Mae dau o aelodau Bethlehem yn bwriadu crwydro dros Y Pasg, i godi arian at elusennau. Bydd Huw Roberts, (chwith) Yr Eglwys Newydd, yn dilyn ôl troed ein nawddsant o Landdewi brefi i Dyddewi, taith o 80 milltir. A thra bydd Huw 'n codi arian at Sefydliad Prydeinig y Galon ac yn gwahodd cyfeillion i ymuno ag e ar gymalau'r daith, bydd ysgrifennydd Bethlehem, Rhys Dafis, (dde) Creigiau, yn anelu am gadwyn mynyddoedd Atlas ym Moroco. Cronfeydd Bangla-Cymru a Chymdeithas Motor Neuron fydd yn elwa o'i ymdrechion yntau i



gyrraedd copa "Jbel Toubkal" (4,167m / 13,672tr). Bu Huw, sy'n rhedwr traws gwlad a marathoniwr o hir brofiad, yn annerch y plant yn oedfa Gŵyl Ddewi Bethlehem ac yn disgrifio'r daith a dangos peth o'r offer. Bu Rhys Dafis, fel aelod ffyddlon o Glwb Mynydda Cymru, yn llawenhau fwy na'r gweddill ohonom o weld yr holl eira diweddar gan fod hynny'n rhoi cyfle iddo ymarfer dringo mewn rhew ac eira. Tybed oes gwir yn y si fod y mynyddwr (Rhys) wedi herio'r cerddwr (Huw) i geisio cael y tir i godi dan ei draed – er mwyn i'r ddau allu cyfarch ei gilydd, lygaid yn llygaid?!!!!

Llongyfarchiadau i



.... i **Eurfryn Thomas**, un o gyd-drysoryddion Bethlehem, ar ei ben-blwydd yn ddiweddar. Roedd syrpreis bach iddo yn festri ar ôl oedfa cymun mis Chwefror - cacen pen-blwydd i ŵr fu'n weithgar mewn eglwysi ar hyd a lled y byd -- i nodi ei fod wedi cyrraedd 80 mlwydd oed. Yn enedigol o Bant-teg, Ystalyfera, aeth gyrfa Eurfryn ym myd adeiladu awyrennau ag e i Fryste a De Rhodesia (Zimbabwe bellach) yn ei gyfnod fel aelod o'r awyrlu . Yna bu'n gweithio i gwmni Boeing yn Seattle a Los Angeles yn UDA. Symudodd wedyn i Seland Newydd, Caerdydd, Llundain a Pharis, cyn ymddeol. Oherwydd ei brofiad, galwyd arno sawl tro i fod yn arbenigwr mewn achosion pan fu awyrennau mewn damwain.

Ond, drwy gydol ei yrfa, bu hefyd yn gysylltiedig a chapel a chymdeithasau Cymraeg yr holl leoliadau y bu'n byw ynddyn nhw. Mae'n gyd-drysorydd yma ers 13 mlynedd – ac mae'n dal wrth y gwaith!

mawr yng Nghymru wedi cyrraedd dros chwarter miliwn o bunnau.



..... i **Gwawr Owen**, Yr Eglwys Newydd, am ei gweledigaeth a'i holl waith caled yn trefnu'r Cyngerdd gwych yna "Sêr Cymru'n helpu Haiti" yn Neuadd Dewi Sant tuag at Apêl Daeargryn Haiti Cymorth Cristnogol. (A hynny, cofiwch, i gyd mewn 10 diwrnod!). Mae'r cyngerdd wedi codi dros £23,000. Yn ôl un arall o'n plith fu'n ddiwyd dros yr un ymgyrch, Nerys Williams, Radur, (a Chymorth Cristnogol), roedd cyfraniadau ychwanegol i Gronfa Cymorth Cristnogol yn dal i ddod i mewn dros y ffôn ar ôl rhai o ailddarllodiadau diweddaraf y cyngerdd ar S4C. Mae'r casgliad



... ac i **Wynford Ellis Owen**, Creigiau, ar gael Cymrodoriaeth Ymddiriedolaeth Goffa Winston Churchill i ymweld â nifer o ganolfannau adferiad cymunedol newydd yn yr UDA. Dywed Wynford, sy'n Brif Weithredwr Cyngor Cymru ar Alcohol a Chyffuriau Eraill yng Nghaerdydd: "Mae'r canolfannau yno wedi profi llawer o lwyddiant ac os gallwn ailadrodd y llwyddiannau yng Nghymru yna fe fyddai'n helpu gyda'r problemau cymdeithasol enfawr cyfredol sy'n datblygu o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau ac alcohol." Cyn iddo fynd, byddwn yn cael cwmni Wynford ar fore Sul, Ebrill 25, i sôn am ei fwriad i sefydlu canolfan adferiad yng Nghaerdydd.